# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

## RHAN 2

LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG

## PENNOD 5

DARPARIAETHAU AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

### 84 Symud swyddogion o swydd

(1) Diwygier Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996 fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd i baragraff 4, yn lle "director, trustee, etc" rhodder "officer".

(3) Ym mharagraff 4 (pŵer cyffredinol i symud swyddog o swydd), yn is-baragraff (1)—

(a) ar ôl "remove" mewnosoder "an officer of a registered social landlord.";

(b) hepgorer paragraffau (a) i (c).

(4) Ym mharagraff 5 (cyfyngu ar bŵer symud person o swydd yn achos elusen gofrestredig), yn is-baragraff (1), yn lle "a director or trustee" rhodder "an officer".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 84 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 90(2)**

**I2** A. 84 mewn grym ar 18.10.2011 gan O.S. 2011/2475, **erglau. 1(2)**, 2(s)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Tai (Cymru) 2011, Adran 84.